# Y Pwyllgor Addysg Dysgu Gydoel Oes a Sgiliau

## ELLS(2) 09-06(P6)

### PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON
### BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL
### EBRILL 2006 HYD MAWRTH 2007

#### Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn un o saith Pwyllgor pwnc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer Ebrill 2006 – Mawrth 2007, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9.

#### Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, sy'n cynnwys: y celfyddydau, amgueddfeydd, cofadeilion hynafol a llyfrgelloedd, ieithoedd Cymru, y cyfryngau a darlledu, chwaraeon a hamdden a materion y loteri. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys cadw llygad ar y naw corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad neu gyrff cyhoeddus sy'n cael cymorth grant.

3. Mae cyfrifoldebau pwyllgorau pwnc yn cael eu hamlinellu yn Rheol Sefydlog 9 ac yn bennaf y meysydd yw: datblygu polisi; craffu ar y Gweinidog a chyrff perthnasol; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

#### Amcanion

4. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gymryd agwedd strategol at ei waith gan gydbwyso craffu'r Gweinidog gyda datblygu polis?au trwy adolygiadau gan y pwyllgor yn ogystal âg ystyried pynciau ar hyd a lled y portffolio fel mae'r angen yn dod i'r amlwg.

#### Blaenoriaethau

5. Y blaenoriaethau am y cyfnod dan sylw fydd:

Datblygu Polisïau (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – ymhlith y blaenoriaethau am y cyfnod mae:

- Cwblhau a llunio adroddiad ar yr adolygiad byr ar bapurau newydd Saesneg eu hiaith yng Nghymru; a
- Parhau gyda'r adolygiad ar ddatblygu pêl droed yng Nghymru. Bwriada'r Pwyllgor adrodd ar yr adolygiad hwn tuag at ddiwedd 2006.

Craffu ar y Gweinidog (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) – bydd y Pwyllgor yn parhau gyda'i graffu rheolaidd o'r Gweinidog ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Yn benodol eleni bydd yn cynnwys o fewn ei raglen:

- Craffu ar y polisi celfyddyd a rôl Cyngor Celfyddydau Cymru yng ngoleuni'r adolygiad annibynnol o gelfyddydau a gomisiynwyd gan y Gweinidog yn dilyn dadl yn y cyfarfod llawn yn gynnar yn 2006. Disgwylir yr adroddiad ar yr adolygiad annibynnol yn Rhagfyr 2006.

- Craffu ar y polisi chwaraeon cyn trosglwyddo'r polisi a chyfrifoldebau eraill o Gyngor Chwaraeon Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2007

- Craffu ar y polisi ar yr iaith Gymraeg yn barod ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2007.

Craffu ar gyrff perthnasol (Rheol Sefydlog 9.7 (iii)) – bydd y Pwyllgor yn parhau gyda'i graffu blynyddol o'r cyrff cyhoeddus diwylliannol a noddir gan y Cynulliad tra'n cymryd i ystyriaeth y newidiadau a amlinellir uchod.

Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (Rheol Sefydlog 9.8(i) a Rheol Sefydlog 24) – bydd y Pwyllgor yn adnabod eitemau is-ddeddfwriaeth ar gyfer craffu arnynt ble mae lle i ddylanwadu ar y cynnwys. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn ystyried deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig perthnasol ble y'i cyfeirir gan y cyfarfod llawn neu fan arall.

Cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn dynodi ei flaenoriaethau o ran y gyllideb yn nhymor yr haf ac yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii) and 23) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeirir iddo dan Reol Sefydlog 23.

Penodiadau cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8(iv) a 22) – bydd y ddau gynrychiolydd a enwebwyd gan y Pwyllgor i ddelio gyda phenodiadau cyhoeddus (Rosemary Butler ac Owen John Thomas ar hyn o bryd) yn cymryd rhan yn y broses benodi ar gyfer cyrff cyhoeddus o fewn y portffolio diwylliant.

## Cyd Weithio gydag eraill

6. Ble bo'n briodol bydd y Pwyllgor yn gweithio gydag phwyllgorau pwnc eraill ar bynciau perthnasol. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael cyfarfodydd allanol ac yn cynnal ymweliadau i gael gwell golwg ar faterion sy'n dod o fewn portffolio'r Pwyllgor ac i hwyluso cysylltiadau mwy uniongyrchol â deiliaid diddordeb a'r cyhoedd.

## Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

7. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol gyda golwg ar

gysylltiadau gydag awdurdodau lleol a’r sector wirfoddol, a’r cynllun datblygu cynaliadwy. Bydd y Pwyllgor yn parchu gofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwasanaeth Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Ebrill 2006**